


**Gwaith  
John  
Davies.**

\*

Ab Owen, Llanuwchllyn.



TRAETH TAHITI.

## Rhagymadrodd.



EDI bywyd byrr Ann Griffiths a Thomas Griffiths, dyma ni'n dod at ddau o'u cymdeithion gafodd oes hirfaith i weithio dros yr Iesu fuont yn gyd-ganmol yn seiadau Pont Robert,— John Davies a John Hughes.

Ganwyd John Davies, Gor. 11, 1772, mewn ty ar fferm Pendugwm, Llanfihangel yng Ngwynfa. Gwehydd oedd ei dad. Cafodd dri mis o ysgol, a daeth yn un o ysgolfeistri Charles o'r Bala. Bu yn athraw yn Llanrhaiadr, ym Machynlleth, ac yn Llanwyddelan. Dechreuodd yr yspryd cenhadol gymeryd meddiant ohono wrth ddarllen hanes y Morafiaid yn Greenland a Thomas a Carey yn yr India. Ysgrifennodd o Fachynlleth at Mr. Charles i gynnyg ei hun yn genhadwr. Wedi hir a hwyr cafodd wahoddiad gan Gymdeithas Genhadol Llundain i fynd i ynysoedd Mor y De; hwyliodd Mai 6, 1800; cyrhaeddodd Tahiti Gor. 10, 1801.

Daliodd i ohebu â theulu Dolwar am ychydig, ac â John Hughes drwy ystod eu hoes hir. Gweithiodd yn galed am flynyddoedd, yn wyneb anhawsterau mawrion a phrofedigaethau dwys. Ond torrodd y wawr o'r diwedd. Ym Mai 1821 ysgrifenna at John Hughes am drefn ei eglwysi blodeuog, a dywed fod ganddo ormod o waith i feddwl am ddod adre. Tra'r oedd John Hughes yn helpu i ffurfio Cyffes Ffydd y Methodistiaid, yr oedd John Davies yn cyfieithu Efengyl Ioan ac


Epistolau Paul a Salmau Dafydd i dafod-ieithoedd Môr y De ; a thra'r oedd y Cymry yn dechreu canu emynnau Ann Griffiths yr oedd yntau'n dysgu anwariad Tahiti i ganu'r un syniadau yn eu hiaith hwy.

Ym Mawrth 1826, anfonodd hanes ei fordaith i ynysoedd Rapa a Raivavae a Tupuai yn Gymraeg at John Hughes. Gwnaeth waith anhygoel bron,—pregethu'r efengyl a dirwest, gwareiddio brenin a gwerin, cyfieithu'r Beibl, gwneyd gramadeg a geiriadur, ysgrifennu llyfrau ysgol ac emynnau, golygu cylchgrawn, cyfieithu "Taith y Pererin" a llyfrau eraill,—rhoddodd lenyddiaeth yn gystal ag efengyl i Tahiti.

Erbyn Rhagfyr 31, 1844, yr oedd dallineb wedi dod arno. Nis gall ysgrifennu rhagor â'i law ei hun ; ac ni wiw i neb ysgrifennu ychwaneg ato yn Gymraeg, nid oedd neb yn Tahiti fedrai ddarllen Cymraeg iddo. Bu farw Awst 11, 1855; flwyddyn i'r mis wedi marw John Hughes, a haner canrif i'r diwrnod bron wedi marw Ann Griffiths.

Cyhoeddodd John Hughes ei lythyr ar "Drefn Eglwysig Ynysoedd Mor y Dehau" yn 1821, a hanes ei fordaith i Rapa yn Eur-wasg Llanfair-caereinion yn 1827. Ceir llawer o'i hanes mewn erthygl gan y Parch. Edward Griffiths, Meifod, yn "Newyddion Da" 1892, yn "Ysgolfeistriaid Mr. Charles o'r Bala" gan y diweddar Barch. Robert Owen, Pennal ; ac yng nghyfrwl werthfawr Penar,—“Cenhadon Cymreig.”

O. M. EDWARDS.



YR OLWG GYNTAF AR TAHITI.



# JOHN DAVIES.

MYFYRDODAU IOAN AP DEWI,

Athraw Ysgol Gymraeg yn Llanrhaidr ym Mochnant, wedi iddo glywed y newydd am y ddaeargryn yn Peru, y pryd y llyngwyd dwy dref enwog, sef Cusco a Curto, y gyntaf yn cynnwys o gylch 58,000 o drigolion, a'r olaf oddeutu 35,000.

**D**A beth yw'r swm terfysglyd  
Sy'n dod o ddydd i ddydd?  
Rhyw fawrion newydd bethau  
Yn amryw fannau sydd ;  
Terfysgoedd tân a dyfroedd,  
Elfennau croes eu rhyw,  
O fewn i Natur eang,  
Sy'n dangos gallu Duw.

Yn nhiroedd y gorllewin  
Fe grynnodd daear fawr,  
Dwy ddinas fawr ac enwog  
I'r dyfnder aeth i lawr,  
Er distryw dinas Lisbon  
Ni chlywsom beth o'r fath,  
Rhyw filoedd aeth o ddynion  
I'r gwaelod erchyll caeth.

Nid hir sydd er pan glywsom  
Am hen Vesuvius syn,  
Ei derfysg fawr arswydus,  
A swm ei ddaear gryn ;

## John Davies.

O fewn ei fynwes danlyd,  
 Rhyw fawr dymhestloedd oedd,  
 Fel swm rhyw ganons aethlyd  
 Yn tanu mas ar goedd.

Ni glywsom am ryfeloedd,  
 A gwaith y cleddyf glas,  
 Bod miloedd maith yn syrthio  
 Ar hyd y gwaedlyd faes ;  
 Ni glywsom fod y *canons*,  
 A'r lleill o'r arfau tân  
 Yn distrywio'n cyd-greaduriaid,  
 A'u gwneyd yn chwilfriw mân.

Mi glywsom bod iseldir Awstria,  
 A'i holl ardaloedd gwych,  
 Ei threfi, a'i dinasoedd,  
 A'i chaerau, 'n erchyll ddrych ;  
 Bod meusydd wedi eu lliwio  
 Yn gochion gan y gwaed,  
 A meirch yn sathru dynion,  
 Ryw filoedd, dan eu traed.

Mi glywsom am afonydd  
 Dderbyniodd ffrydiau gwaed,  
 Hen Meuse, a Scheldt, a Rhein,  
 Wrth gyrrau German wlad ;  
 Moselle, a Loire, a Lahn,  
 A'r afon Danube fawr,  
 Sy'n dystion i fyrddiynau  
 I syrthio yno i lawr.

Mi glywsom am ardaloedd Galia,  
 A'i therfysg erchyll iawn,  
 A'r tywallt gwaed oedd ynddi  
 Foreuddydd a phrydnawn ;

Cynnwrf y Cyfandir. 7

Yn Paris, ddinas enwog,  
Alsace, Toulon, La Vendee,  
Ac amryw leoedd ereill,  
Tywalltwyd gwaed yn lli.

Maesydd dyfrllyd Holland,  
A German eang faith,  
Rhyw ran o diroedd Prwsia,  
A brofodd erchyll waith ;  
Rhandiroedd Poland, hefyd,  
A wnaed yn faes o waed,  
Y Rwsiaid a ddistrywiodd  
Ryw filoedd tan eu traed.

Hen Spaen a gafodd brofi  
O rym y fflangell gref,  
Ymdanu'r oedd y distryw  
Wrth archiad brenin nef ;  
Nes cafodd tiroedd Ital  
Eu rhan o'r distryw chwith,  
A miloedd gael eu hanfon  
I'r byd a bery byth.

Ni glywsom am y plâu  
Yng Nghaer Cystenyn fawr,  
Yn difa y trigolion,  
Ryw nifer bob yr awr ;  
A thrwy orllewin India  
Roedd clefyd iawn  
Yn difa milwyr Prydain  
Foreuddydd a phrydnawn.

Tra'r oedd y barnau'n hedeg  
O gwrr i gwrr y byd,  
Hen Brydain a arbedwyd  
Oddiwrth effeithiau'r llid ;

Er bygwth arni farnau,  
 Amrywiol fath a rhyw,  
 Hyd yma mae trugaredd,  
 Amynedd rhyfedd Duw.

Y march fu bron a chyrraedd  
 O fewn terfynau'n tir,  
 Amrywiol chwith derfysgoedd  
 O'i mewn a fu, mae'n wir ;  
 O fewn ychydig gwelsom  
 Ol carnau'r march arswydus du,  
 Ond er maint ein beiau hynod  
 Hyd hyn arbedwyd ni.

O fewn yr haf presenol  
 Tymhestloedd rhyfedd fu,  
 Gan d'ranau mawr, a chesair,  
 A mellt, a gwyntoedd cry ;  
 Rhyw sulphur poeth oedd hynod,  
 Y wybren oedd ar dân,  
 Bygythiodd ddistryw erchyll  
 Yn amryw fannau o'i flaen.

Fy meddwl sydd mewn terfysg,  
 Rhyw ddychryn, ofn, a braw,  
 Wrth gofio am y basiodd,  
 Wrth feddwl am a ddaw ;  
 Wrth feddwl fod pechodau  
 Trigolion nef a gwlad,  
 Yn gwaeddi i'r nef am ddial,  
 A rhyw arswydus nad.

Yn enwedig cyflwr Seion gysglyd  
 O fewn y dyddiau hyn,  
 Fel Ephraim mae penwynni  
 Yn taenu o'i mewn yn syn ;



## Mae'n Bryd Deffroi.

9

Rhyw falchder a chynfigen,  
A chnawd, a hunan cas,  
Sy'n awr yn ceisio lletty  
O fewn i deml gras.

Rhyw weinidogaeth effrø,  
A rhyw ddisgyblaeth glos,  
Rhyw wyllo yn erbyn pechod,  
A chodi i fyny 'r groes ;  
Rhyw lefain taer am olew,  
Rhag bod fel morwyn ffol,  
Oedd yn eglwysi Prydain  
Flynnyddoedd rai yn ol.

Mae'n bryd in chwilio'n hunain,  
Pa beth sydd gennym ni,  
Rhag ofn mai sail o dywod,  
A ymaith gyda'r lli ;  
Os amser chwynnu a nithio  
Sy'n dod ar eglwys Duw,  
A ŷm ni wenith puraidd,  
O'r iawn rywogaidd ryw ?

A ydyw calon ddrylliog,  
A ydyw ysbryd briw,  
A ydyw cas at bechod,  
A sel tros achos Duw.  
Yn cael lle o fewn ein mynwes ?  
Neu ynte pa fodd ma'n bod ?  
A ŷm ni 'n caru'r Iesu,  
A byw i danu ei glod ?

Mae'n bryd deffroi o gysgu,  
A byw fel plant y dydd,  
A thafllu oddiwrthym bwysau  
A phob cadwynau sydd

Yn rhwystro ini a rhedeg  
Yr yrfa sydd o'n blaen,  
A ffoi fel Lot o Sodom  
Cyn yr elo i gyd ar dân.

Ond doed hi fel y delo,  
Daw arfaeth Duw i ben,  
Fe gesglir oll a brynwyd  
Gan Iesu ar y pren ;  
Efengyl Iesu a lwydda  
Dros wyneb ehang fyd,  
A'r son am dano a leinw  
Y ddaear fawr i gyd.

Llanrhaiadr, Medi 30, 1797.

#### FFARWEL Y CENHADWR.

Copi o lythyr a anfonodd John Davies (yr hwn a aeth yn un o genhadau y Gymdeithas Genhadawl yn Llundain i'r diben i ddysgu paganiaid ynysodd Môr y Dehau yngwybodaeth o'r gwirionedd) at ei gyfeillion, o Bortsmouth, ar ei gychwyniad i'r fordaith.

Mai 8ed, 1800.

At bawb o'r cyfeillion crefyddol cynulledig yn  
Pont Robert.

FY ANWYL GYFEILLION, BRODYR, A THADAU.—

Perthynas â chwi fel cymdeithas grefyddol sy'n fy rhwymo i'ch cofio, yn neillduol oddiwrth bawb eraill y Nghymru. Coffadwriaeth am oriau melus a dreuliais gyda chwi yn y mwynhad o foddion gras ac ordinhadau'r efengyl, sy'n peri i mi eich cofio, gyda galar a llawenydd yr un pryd,—galar pan alwyf i gof fy anffrwythlondeb yngwinllan fy Arglwydd, a llawenydd wrth feddwl am fy nghyfeillion, yr rhai y bu felus gennym gydgyfrinachu wrth fyned i dŷ Dduw ynghyd. Mae achos

## Ffarwel y Cenhadwr. 11

o lawenydd imi, nid imi golli eich cyfeillach ; ond y ceir cyfeillach yn parhau, ac y byddwn oll yn mhen ychydig yn mwynhau cyfeillach ein gilydd yn y byd tu draw i ofid.

Yr wyf yn teimlo heddyw ddiolchgarwch am y breintiau a fwynheais yn eich plith, am i mi gael fy ngeni yn swm yr efengyl, am fod gennyf le i obeithio iddi gael ei gwneuthur yn allu Duw er iechydwrïaeth. Ac yn wyneb llygredd fy nghalon, ynghyd a byddinoedd lluosog o elynion o'r byd ac o uffern, yr wyf yn dymuno myned ymlaen yn enw Duw byddinoedd Israel.

Fy anwyl gyfeillion, yr wyf yn meddwl fy mod yn anaddas i roddi cyngor i neb ohonoch. Eto dymunwn adgofio i'm tadau, y rhai ddioddefasant bwys a gwres y dydd, na bydd i un math o ddywydd eu digalonni na'u llwfwrhau. Dymunaf gymorth o'r nefoedd iddynt i lywodraethu y praidd, i geisio y darfedig, i ddiddanu y gwan eimheddwl, i dynnu'r cedyrn o'u heisteddfaioedd, ac i ddigaregu'r ffordd fel na byddo i'r gweiniaid dramgwyddo yn eu ffordd tua Seion.

Dymunaf annerch fy nghyfoedion, fy mrodyr a'm chwïorydd ieuainc. O fy nghyfeillion, gan i chwi gael y fraint o listio dan faner Iesu, gobeithio na bydd i neb ohonoch fel Ephraim droi eich cefnau yn nydd y frwydr. O fy mrodyr, gweddïwch am gael eich cadw'n ddigwyp, ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac y'nghadernid ei allu ef. Ond cadw yn agos at ein Captain, ni raid ini ofni colli'r frwydr. Da genyf feddwl yn y dyddiau hyn fod pob awdurdod yn y nefoedd a'r ddaear yn llaw Iesu, pen mawr yr Eglwys, mai efe yw Brenin y brenhinoedd, Arglwydd y lluoedd mewn nefoedd,

daear, ac uffern. Wrth ei orchymyn fe wna a fynno â llu'r nef a thrigolion daear, ac fe garia'i waith ymlaen drwy bob gwrth'nebiadau.

Fy anwyl gyfeillion, yr wyf yn taer ddymuno am eich llwyddiant, a bod i'r Arglwydd chwanegu at eich rhifedi o nifer y cyfryw ag y fyddant gadwedig. Cofiwch am danaf, fy mrodyr, wrth orsedd gras. Gallwn gydgyfarfod yno er fod rhyngom, fe alle, lawer mil o filldiroedd.

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Yspryd Glân, a fyddo gyda chwi oll, gyda phawb ohonoch, fy mrodyr. Amen ac amen.

Mewn brys oddiwrth eich brawd a'ch cyfaill,

JOHN DAVIS.

